## PRIFFYRDD, CYMRU

## 2010 Rhif 54

## DEDDF PRIFFYRDD 1980

# GORCHYMYN CEFNFFORDD CAERDYDD I LAN CONWY (YR A470) (FFYRDD YMYL GWELLIANT GELLIGEMLYN) 2010

*Gwnaed 07 Rhagfyr 2010*

*Yn dod i rym 16 Rhagfyr 2010*

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 14, 125 a 268 o Ddeddf Priffyrdd 1980(**1**) ('Deddf 1980') a phob pŵer galluogi arall(**2**) yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

1. Mae Gweinidogion Cymru wedi'u hawdurdodi, mewn perthynas â'r gefnffordd yng Ngelligemlyn yn Sir Gwynedd:-

a. i gau priffyrdd;
b. i adeiladu priffyrdd newydd;
c. i gau mynedfeydd preifat i fangreoedd; ac
ch. i ddarparu mynedfeydd newydd i fangreoedd.

2. (1) Dynodir y gwaith a awdurdodir gan Erthygl 1 yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn, a rifwyd 1 a 2, a dangosir y gwaith ar y planiau safle a rifwyd 1 a 2, sydd wedi eu cynnwys yn y plan a adneuwyd sy'n dod gyda'r Gorchymyn hwn, yn y dull canlynol:-

a. disgrifir y darnau sydd i'w cau (amcangyfrif yn unig yw pob pellter a roddir) a dangosir hwy â llinellau rhesog du a gwyn;

b. dynodir y priffyrdd newydd sydd i'w hadeiladu drwy ddefnyddio, yn yr Atodlenni, y llythrennau cyfeirnod a roddir i'r priffyrdd newydd hynny ar y plan a adneuwyd. Pan fo priffordd newydd i'w hadeiladu mewn cysylltiad â chau darn o briffordd a ddisgrifir mewn Atodlen, rhoddir y llythyren gyfeirnod briodol gyferbyn â'r disgrifiad o'r darn hwnnw, a phan fo priffordd newydd i fod yn llwybr troed, bydd y geiriau "llwybr

troed” yn ymddangos mewn cromfachau islaw’r llythyren gyfeirnod. Defnyddir dotwaith i ddangos llwybrau’r priffyrdd newydd sydd i’w hadeiladu, a dangosir llinell ganol pob priffordd newydd gan linell ddu ddi-dor;

c. disgrifir y darnau o fynedfeydd preifat sydd i’w cau (amcangyfrif yn unig yw pob pellter a roddir), a rhoddir iddynt y rhifau cyfeirnod a ddangosir ar y plan a adneuwyd, a dangosir hwy fel bandiau du solet; ac

ch. dynodir y mynedfeydd newydd sydd i’w darparu drwy ddefnyddio, yn yr Atodlenni, y rhifau cyfeirnod a roddir i’r mynedfeydd newydd hynny ar y plan a adneuwyd. Pan fo mynedfa newydd i’w darparu mewn cysylltiad â chau darn o fynedfa breifat a ddisgrifir yn yr Atodlenni, rhoddir ei rhif cyfeirnod gyferbyn â’r disgrifiad o’r darn hwnnw. Dangosir llwybrau’r mynedfeydd preifat newydd gan linellau lletraws.

(2) Mae’r plan a adneuwyd yn nodi safle’r gefnffordd mewn perthynas â’r gwaith awdurdodedig.

3. Datgenir drwy hyn fod Gweinidogion Cymru wedi’u bodloni:-

(1) mewn perthynas â phob darn neu ran o briffordd y mae’r Gorchymyn hwn yn awdurdodi ei gau, bod llwybr arall rhesymol o gyfleus ar gael, neu y darperir un cyn cau y darn hwnnw neu’r rhan honno o’r gefnffordd, a

(2) mewn perthynas â phob mynedfa breifat i fangre yr awdurdodir ei chau gan y Gorchymyn hwn, bod mynedfa arall resymol o hwylus ar gael i’r fangre berthnasol neu y darperir un yn cael ei darparu cyn cau’r fynedfa breifat honno neu nad oes gofyn rhesymol am fynedfa newydd i’r fangre berthnasol.

4. Mae pob priffordd newydd i’w throsglwyddo i Gyngor Gwynedd yn y modd a nodir yn yr Atodlen, o’r dyddiad y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hysbysu’r Cyngor ei bod wedi ei chwblhau a’i bod ar agor ar gyfer traffig trwodd.

5. Yn union ar ôl trosglwyddo priffordd newydd y dangosir dosbarthiad ar ei chyfer yn yr Atodlen gyferbyn â llythyren gyfeirnod y briffordd newydd honno, caiff y briffordd honno ei dosbarthu yn unol â hynny.

6. Pan wneir darpariaeth yn y Gorchymyn hwn:

a. ar gyfer trosglwyddo priffordd i Gyngor Gwynedd, neu

b. i alluogi Gweinidogion Cymru i newid priffordd a freiniwyd yng Nghyngor Gwynedd,

yna (yn ddarostyngedig i ddarpariaethau adran 268(3) o Ddeddf 1980), ar ddyddiad trosglwyddo'r cyfryw briffordd neu ar gwblhau'r gwaith neu'r newid, neu os yw'n ddiweddarach, ar ddyddiad caffael y tir gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â'r briffordd newydd neu newid y briffordd, trosglwyddir i Gyngor Gwynedd unrhyw eiddo, hawliau neu rwymedigaethau (ac eithrio benthyciadau neu daliadau benthyg) a freiniwyd yng Ngweinidogion Cymru neu a achoswyd iddynt mewn cysylltiad â'r briffordd newydd neu'r newid priffordd, yn ôl fel y digwydd.

7. Os oes, yn union cyn cau darn neu ran o briffordd yn unol â'r Gorchymyn hwn, unrhyw gyfarpar ymgymerwyr statudol o dan, mewn, ar, dros, ar hyd neu ar draws y briffordd honno, yna, yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf 1980, bydd yr ymgymerwyr hynny yn parhau â'r un hawliau mewn perthynas â'r cyfarpar hwnnw ar ôl y cau, ag a oedd ganddynt yn union cyn y cau.

8. Yn y Gorchymyn hwn:

(1) mesurir pob mesur pellter ar hyd llwybr y briffordd berthnasol neu'r fynedfa berthnasol i fangre, yn ôl fel y digwydd

(2) (a) ystyr "y gefnffordd" (*"the trunk road"*) yw Cefnffordd Caerdydd i Lan Conwy (yr A470)

(b) ystyr "y plan a adneuwyd" (*"the deposited plan"*) yw'r plan sy'n cynnwys y planiau safle a rifwyd 1 a 2 a geir yn y ffolio planiau sy'n dwyn y rhif HA14/1 WAG5 ac wedi ei farcio "Gorchymyn Cefnffordd Caerdydd i Lan Conwy (yr A470) (Ffyrdd Ymyl Gwelliant Gelligemlyn) 2010" a

lofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru ac a adneuwyd yn Gwasanaeth Recordiau, Parc Cathays, Caerdydd;

(c) ystyr "y plan safle" (*"the site plan"*) yw un o'r planiau safle a rifwyd 1 a 2 yn y ffolio planiau a rifwyd HA14/1 WAG5 ac y cyfeirir ato fel "y plan a adneuwyd" ym mharagraff (a) o'r erthygl hon;

(ch) ystyr "priffordd newydd" ("*new highway*"") yw priffordd yr awdurdodwyd ei hadeiladu gan y Gorchymyn hwn a rhaid dehongli "priffyrdd newydd" yn unol â hynny.

9. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 16 Ionawr 2011 a'i enw fydd Gorchymyn Cefnffordd Caerdydd i Lan Conwy (yr A470) (Gwelliant Ffyrdd Ymyl Gwelliant Gelligemlyn) 2010.

Llofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru

Dyddiedig 07 Rhagfyr 2010

**J COLLINS**
Dirprwy Gyfarwyddwr
Cyflenwi Seilwaith
Llywodraeth Cynulliad Cymru

**(1)** 1980 p.66

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672 erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn o ran Cymru bellach wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru.

**DEDDF PRIFFYRDD 1980**

**GORCHYMYN CEFNFFORDD CAEDYDD I LAN CONWY (YR A470) ( FFYRDD YMYL GWELLIANT GELLIGEMLYN) 2010**

**HYSBYSIR DRWY HYN** fod Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adrannau 14, 125 a 268 o Ddeddf Priffyrdd 1980 yn awdurdodi Gweinidogion Cymru:-

(a) i gau priffyrdd;
(b) i adeiladu priffyrdd newydd;
(c) i gau mynedfeydd preifat i fangreoedd; ac

(ch) i ddarparu mynedfeydd newydd i fangreoedd.

oll ar, neu yng nghyffiniau, llwybr Cefnffordd Caerdydd - Glan Conwy (yr A470) yng Ngelligemlyn yn Sir Gwynedd, ac yn darparu ar gyfer trosglwyddo'r priffyrdd newydd i Gyngor Gwynedd, o'r dyddiad yr hysbysir y Cyngor gan Lywodraeth Cynulliad Cymru bod y priffyrdd newydd wedi eu cwblhau ac yn agored i draffig trwodd.

Gellir gweld copïau o'r Gorchymyn, y plan cysylltiedig, y Datganiad Esboniadol, y Crynodeb Annhechnegol o'r Datganiad Amgylcheddol, yr Hysbysiad Penderfynu a'r Datganiad i Oleuo Asesiad Priodol yn ddi-dâl yn ystod unrhyw oriau rhesymol o 16 Rhagfyr 2010 tan 27 Rhagfyr 2011 neu o fewn 6 wythnos ar ôl ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad hwn, pa gyfnod bynnag gyfnod sy'n dod i ben ddiweddaraf, yn:

- TPG3, Trafnidiaeth Tai ac Adfywio, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ

- Yr Is-adran Ffyrdd a Phrosiectau, Trafnidiaeth Tai ac Adfywio, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno LL31 9RZ

- Swyddfeydd Cyngor Gwynedd
  Swyddfa Ardal Meirionnydd
  Cae Penarlâg
  Dolgellau
  Gwynedd LL40 2YB

Gellir cael copïau o'r Gorchymyn, sy'n dwyn yr enw 'Gorchymyn Cefnffordd Caerdydd i Lan Conwy (Yr A470) (Ffyrdd Ymyl Gwelliant Gelligemlyn) 2010' oddi wrth TPG3, Trafnidiaeth Tai ac Adfywio, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan y Gorchymyn, ac sy'n dymuno herio'i ddilysrwydd, neu ddilysrwydd unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo, ar y sail nad yw o fewn pwerau Deddf Priffyrdd 1980, neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw ofyniad yn y Ddeddf honno, neu ag unrhyw reoliadau a wnaed oddi tani, mewn perthynas â'r Gorchymyn, wneud cais i'r Uchel Lys o fewn 6 wythnos i ddyddiad cyhoeddi'r Hysbysiad hwn, os yw'r cyfryw gyfnod yn dod i ben yn ddiweddarach,

i atal neu ddiddymu'r Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaeth a gaiff ei chynnwys ynddo.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl a'r Hysbysiad yn www.cymru.gov.uk
Detholer (Deddfwriaeth/Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Anstatudol/Trafnidiaeth, Cymru/Ymylon Ffyrdd a Gorchmynion Prynu Gorfodol/2010).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth Is-adran Cynllunio a Llywodraethu Trafnidiaeth 3, Trafnidiaeth Tai ac Adfywio, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**
Yr Is-adran Cynllunio a Llywodraethu Trafnidiaeth 3
Llywodraeth Cynulliad Cymru